The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk

Yr Holl Bartïon â Buddiant a Phartïon Statudol

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN070007

Dyddiad: 2 Mehefin 2023

Annwyl Syr/ Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 – adrannau 89 a 123; a Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010 – Rheoliad 6**

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet**

**Penderfyniad Gweithdrefnol yn dilyn cais i wneud newidiadau i'r cais**

Ysgrifennwn atoch i roi gwybod i chi am y Penderfyniad Gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio (ExA) yn dilyn y cais i wneud newid a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd dyddiedig 26 Mai 2023 (cyfeirnodau [CR2-001 i CR2-021] yn Llyfrgell yr Archwiliad). Mae'r holl ddogfennau y cyfeirir atynt yma wedi cael eu cyhoeddi o dan y tab 'Dogfennau' ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

Mae dogfen yr Ymgeisydd, sef 'Llythyr Clawr Gais i Newid 2' [CR2-016] yn rhoi disgrifiad byr o bob un o'r newidiadau a gynigir, ond mae'n datgan *"Mae disgrifiad manwl o bob newid a'i gyfiawnhad iddo i'w weld yn y llythyr Hysbysiad am fwriad i gyflwyno cais am newid 2"* [AS-066]. Derbyniwyd yr ail ddogfen gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar 3 Mai 2023. Mae dau newid wedi cael eu paratoi, ac mae'r Ymgeisydd yn dweud *"…fe'u paratowyd i ymateb i ymgynghoriad parhaus â thirfeddianwyr a Phartïon â Buddiant."* Nododd yr Ymgeisydd hefyd ei fod *"…yn disgwyl y bydd Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010 Rheoliad 4 yn berthnasol i'r newidiadau a geisir ac y bydd angen ymgynghori o dan y rheoliadau hynny."*

Mae'r ExA yn nodi dull bwriadedig yr Ymgeisydd o ran cyflwyno'r newidiadau arfaethedig a'r ymgynghoriad arfaethedig ychwanegol y mae'n bwriadu ei gynnal os derbynnir y Cais i Newid. Nodwyd hefyd fod yr ymgynghoriad arfaethedig yn cyd-fynd yn fras â gofynion Nodyn Cyngor 16: 'Sut i ofyn am gael gwneud newid a allai fod yn berthnasol'[1]. Mae'r ExA wedi adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd ac asesu cais yr Ymgeisydd yn unol â

[1]https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/advice-note-16/

pharagraffau 109 i 115 Canllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) 'Deddf Cynllunio 2008: Archwilio Ceisiadau ar gyfer Caniatâd Datblygu'[2] a Nodyn Cyngor 16: 'Gofyn am gael newid ceisiadau ar ôl iddynt gael eu derbyn i'w harchwilio' yr Arolygiaeth Gynllunio.

Amlinellir y newidiadau arfaethedig yn fyr isod, ac mae disgrifiad manwl o bob newid a chyfiawnhad yr Ymgeisydd iddo i'w weld yn 'Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cais i Newid (2)' [AS-066] yr Ymgeisydd.

- Newid 1 – opsiwn Pont Bibell Ymgorfforedig i groesi Nant Alltami, yn lle'r ffos a ffefrir gan yr Ymgeisydd, pe ystyrir nad yw ei opsiwn a ffefrir yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

- Newid 2 – mae hyn yn ymwneud â dau leoliad ar safle 2 Sisters Food Group neu'n agos iddo. Byddai'r diwygiadau arfaethedig yn arwain at ychwanegu tir at Derfynau'r Gorchymyn mewn un lleoliad (sef hyd ychwanegol o drac cynnal a chadw presennol i'r gogledd/ gogledd-ddwyrain o Chester Road East), ar yr un pryd â dileu ail ardal o dir o Derfynau'r Gorchymyn sy'n cynnwys cylch troi lorïau a ddefnyddir mewn perthynas â gweithredu ffatri 2 Sisters Food Group.

Ystyrir bod y dull a fabwysiadwyd gan yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig yn gywir. Er nad yw'r holl newidiadau'n golygu bod angen tir ychwanegol, mae Newid 2 yn arwain at gynyddu maint terfynau'r Gorchymyn, tra byddai Newid 1 yn golygu bod angen cymryd tir ar yr wyneb a ddangosir ar y cynlluniau tir ar hyn o bryd fel caffaeliad is-wyneb yn unig (h.y. caffael tir parhaol, yn hytrach na chaffael is-wyneb yn barhaol).

Mae'r ExA yn nodi datganiad yr Ymgeisydd bod y Newidiadau *"…wedi cael eu paratoi i ymateb i ymgynghoriad parhaus â thirfeddianwyr a Phartïon â Buddiant."* Er nad yw'n ymddangos bod unrhyw fuddiannau perchnogaeth newydd yn cael eu heffeithio, gan fod Personau yr Effeithir arnynt a nodwyd yn erbyn y tir ychwanegol sy'n cael ei gynnwys o ganlyniad i newidiadau i derfynau'r Gorchymyn eisoes yn ymddangos yn y Llyfr Cyfeirio. Ni waeth beth yw hyn, mae gan y ddau newid y cynnydd posibl mewn ymyrraeth â hawliau tirfeddianwyr. Gyda hyn mewn golwg, mae'r ExA yn cytuno â'r Ymgeisydd ac yn ystyried bod y Newidiadau arfaethedig yn sbarduno Rheoliadau 5 i 19 (yn gynwysedig) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010 (y Rheoliadau Caffael Gorfodol).

O ran asesu effeithiau arwyddocaol tebygol y Newidiadau arfaethedig, mae'r ExA yn nodi dogfen yr Ymgeisydd, sef Cais i Newid 2 Atodiad Datganiad Amgylcheddol (ES) [CR2-017]. Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ynghylch effeithiau tebygol yr opsiwn dylunio arfaethedig (Newid 1) a newid dyluniad (Newid 2), fel y manylir uchod, a goblygiadau'r Newidiadau hyn mewn perthynas â'r asesiadau Datblygu Arfaethedig DCO a gynhaliwyd yn y ES 2022 ac ES Atodiad Cais i Newid 1 (ES Atodiad 1) [CR1-124]. Mae'r ExA yn nodi nad yw ES Atodiad 2 yn dyblygu ES 2022 na'r ES Atodiad 1 ac fe'i paratowyd i'w ddarllen ar y cyd â'r dogfennau hyn. Mae'r Ymgeisydd yn nodi bod y ddogfen ES Atodiad 2 [CR2-017] yn paratoi i sicrhau bod effeithiau amgylcheddol y newidiadau arfaethedig wedi cael eu hasesu'n addas, a bod unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol wedi cael eu hamlygu.

---

[2]https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/418015/examinations_guidance-__final_for_publication.pdf

At ei gilydd, roedd ES Atodiad 2 [CR2-017] wedi nodi:

- effaith sylweddol debygol ychwanegol o ran Newid 1 sy'n gysylltiedig ag amwynder gweledol defnyddwyr hamdden hawl tramwy cyhoeddus 414/39A; a

- effaith sylweddol debygol o fod yn bodoli eisoes, dylid tynnu 'Colli tir dros dro a tharfu ar fynediad i 2 Sister's Food Group, o Dabl 20.1 o ES Atodiad 1 mewn perthynas â Newid 2.

Ni nodwyd unrhyw newid arall nac effeithiau sylweddol newydd ar gyfer unrhyw bynciau a aseswyd yn yr ES.

O ystyried yr uchod i gyd, nododd yr ExA ganfyddiadau'r Ymgeisydd ond nid yw'n ystyried unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig mor berthnasol fel y byddent yn gyfystyr â phrosiect sylweddol wahanol. Ni ystyrir bod y newidiadau arfaethedig, yn unigol nac ar y cyd, yn achosi i'r prosiect fod yn wahanol o ran natur neu sylwedd i'r hyn yr ymgeisiwyd amdano'n wreiddiol ym mis Hydref 2022. Fodd bynnag, o ystyried bod Newid 2 yn cynnwys ymestyn terfynau'r Gorchymyn; tra bod Newid 1 yn newid y math o gaffael gorfodol a geisir (buddiannau is-wyneb yn unig i gaffael tir yn llawn) i ganiatáu i'r bont uwchben y ddaear, byddai gan y ddau'r potensial i gynyddu ymyrraeth â hawliau tirfeddianwyr. O'r herwydd, mae'r ExA o'r farn y byddai hyn yn sbarduno Rheoliadau 5 i 19 y Rheoliadau Caffael Gorfodol. Er gwaethaf hyn, yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau Caffael Gorfodol, mae'r ExA o'r farn y gellir derbyn y Newidiadau arfaethedig i'r Archwiliad. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, mae'r ExA yn fodlon ei fod yn cydymffurfio â gofynion Rheoliad 5 y Rheoliadau Caffael Gorfodol.

Mae'r ExA yn fodlon bod digon o amser yn yr Archwiliad i'r newidiadau arfaethedig gael eu harchwilio'n briodol ac yn deg, gan gynnwys cyfle i wneud cyflwyniadau ysgrifenedig ac unrhyw sylwadau llafar mewn unrhyw wrandawiadau sy'n ofynnol, ynghyd â gofynion gweithdrefnol y Rheoliadau Caffael Gorfodol. Wrth dderbyn y newidiadau arfaethedig i'r Archwiliad, er na chafwyd cydsyniad yr holl rai sydd â buddiant yn y tir, mae'r ExA yn nodi bod yr Ymgeisydd wedi cyflwyno dogfennau yn unol â Reoliad 5 y Rheoliadau Caffael Gorfodol. Fodd bynnag, byddai'r ExA yn atgoffa'r Ymgeisydd o'i rwymedigaeth i roi gwybod i'r Unigolion yr Effeithir Arnynt yn unol â gofynion Rheoliadau 7, 8 a 9 y Rheoliadau Caffael Gorfodol.

Mae'r ExA yn gofyn i hyn gael ei wneud yn unol â'r graddfeydd amser yn llythyr 'Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cais i Newid (2)' [AS-066] yr Ymgeisydd a dderbyniwyd ar 3 Mai 2023, a bod yr hysbysiadau o dan y Rheoliadau Caffael Gorfodol ymgynghoriad sy'n rhedeg o **6 Mehefin 2023** a hysbysiadau papur newydd yn cael eu cyhoeddi, heb fod yn hwyrach nag **8 Mehefin 2023** (hysbysiad cyntaf) a **15 Mehefin 2023** (ail hysbysiad).

Ni all yr ExA bwysleisio digon pa mor bwysig yw cydymffurfio â'r graddfeydd amser uchod a, chan ofalu bod yr ymgynghoriad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Caffael Gorfodol o hyd, pwysigrwydd cyflwyno'r Tystysgrifau Cydymffurfio, fel sy'n ofynnol gan Reoliad 9 y Rheoliadau Caffael Gorfodol, yn brydlon ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori period (h.y. mor gynnar â phosibl y diwrnod ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben) ac yn gynt o lawer na'r 10 niwrnod gwaith a ganiateir.

Gallai methiant i gyflwyno'r Tystysgrifau Cydymffurfio yn brydlon ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori olygu bod rhaid i'r Gwrandawiadau, sydd wedi'u trefnu yn amserlen yr Archwiliad wythnos dechrau 7 Awst 2023 ar hyn o bryd, gael eu canslo a'u haildrefnu. Os bydd hyn yn digwydd, byddai'r cyfryw Wrandawiadau a aildrefnwyd yn debygol o olygu bod rhaid i weddill amserlen yr Archwiliad gael ei hadolygu'n sylweddol.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd gyflwyno:

- Fersiynau cyfunol, er budd hygyrchedd ac eglurder, o'r penodau ac atodiadau ES perthnasol sy'n ymgorffori'r newidiadau a gynhwysir yn y dogfennau a restrir isod:

  - Atodiad ES 2023 Cais i Newid 2;
  - Atodiad ES 2023 Cynllunio Cais i Newid 2 – Atodiad A - Atodiad Crynodeb An-Technegol;
  - Atodiad ES 2023 Cais i Newid 2 – Atodiad B – ES Atodiadau Adenda;
  - Atodiad ES 2023 Cais i Newid 2 – Atodiad C – Ffigurau;
  - Atodiad ES 2023 Cais i Newid 1 –; ac
  - Atodiad ES 2023 Cais i Newid 1 – Atodiad A – Atodiadau Technegol Adenda (Parch A).

Dylid cyflwyno'r fersiynau cyfunol, ynghyd ag unrhyw ddiweddariad i'r Adroddiad Asesu Rheoliadau Cynefinoedd (fersiwn ddiweddaraf [REP2-023], mewn fersiynau newid glân a thrac erbyn Dyddiad Cau 4 (20 Mehefin 2023).

- Ar ffurf copi caled, 2 set liw o'r Cynlluniau Tir a'r Cynlluniau Gwaith, o'r maint a'r raddfa iawn. Sylwer y dylid darparu copïau caled a digidol o'r Cynlluniau hyn, mewn lliw ac o'r maint a'r raddfa iawn, bob tro y cânt eu diwygio.

**Y camau nesaf**

Mae'r Ymgeisydd bellach yn gyfrifol am roi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau arfaethedig sy'n cynnwys tir ychwanegol yn unol â'r Rheoliadau Caffael Gorfodol. Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd gynghori'r Tîm Achos am ei amserlen arfaethedig cyn gynted â phosibl, fel y gellir sicrhau bod ffurflen briodol ar gyfer gwneud Sylwadau Perthnasol ynglŷn â'r ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau ychwanegol dros dir yn orfodol ar gael ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

Ar ôl diwedd y cyfnod Sylwadau Perthnasol, ac os bydd angen, bydd amserlen Archwiliad ddiwygiedig, sy'n mynd i'r afael â Cheisiadau i Newid 1 a 2, yn cael ei chyhoeddi o dan Reol 8(3) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010. Gan y bydd yr ymgynghoriad ynglŷn â Cheisiadau i Newid 1 a 2 yn cydredeg, nid yw'r ExA o'r farn y byddai cyhoeddi amserlenni Archwiliad diwygiedig ar wahân yn ddefnydd effeithiol o amser yr Archwiliad. Fel y cyfryw, os oes angen, bydd un amserlen Archwiliad ddiwygiedig, yn ymwneud â Cheisiadau i Newid 1 a 2, yn cael ei chyhoeddi ar ôl diwedd y cyfnod Sylwadau Perthnasol yn ymwneud â Chais i Newid 2. Byddai amserlen Archwiliad ddiwygiedig o'r fath yn debygol o gynnwys terfyn(au) amser perthnasol ar gyfer cyflwyno Sylwadau Ysgrifenedig, y cyfnodau erbyn pryd y dylid cyflwyno ymatebion ac arwydd o unrhyw wrandawiadau angenrheidiol.

Sylwer bod y Newidiadau arfaethedig yn cael eu derbyn ar y sail y gellir cwblhau'r holl brosesau yn yr amser sy'n ofynnol cyn diwedd yr Archwiliad ac yn unol ag unrhyw amserlen Archwiliad ddiwygiedig a allai gael ei chyhoeddi, maes o law. Os na chyflawnir hyn, ni fyddwn mewn sefyllfa i ystyried y Gais i Newid yn ein hadroddiad argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol gan na fydd wedi cydymffurfio â'r gweithdrefnau statudol perthnasol.

Yn gywir

*Christopher Butler*

**Christopher Butler**
**Aelod Arweiniol yr Awdurdod Archwilio**

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.